# Ystadegau Cydraddoldeb

18 Chwefror 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

1. *O ran y nifer presennol o 60 o Aelodau Cynulliad, os gwelwch yn dda a allech ddweud wrthyf faint sy'n fenywod a faint sy'n ddynion?*
2. *O'r rhain, faint sy'n 50 oed a throsodd a faint sy'n 60 oed a throsodd?*
3. *Faint sy'n dod o leiafrifoedd ethnig? Yn olaf, faint sydd wedi'u cofrestru'n anabl?*

1. Caiff gwybodaeth yn ymwneud ag [Aelodau'r Cynulliad]() ('Aelodau') ei chyhoeddi ac mae ar gael ar ein gwefan. Ar hyn o bryd, mae 35 o ddynion a 25 o fenywod.

2. Er bod gennym ddyddiadau geni Aelodau, gellir gweld y wybodaeth hon yma:
   http://news.bbc.co.uk/democracylive/hi/representatives/search?type=representatives&institution=National Assembly for Wales
   Mae'r elfen hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill. Felly, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth hon ar wahân.

3. Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') wybodaeth am 'nodweddion gwarchodedig' (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

2010) yr Aelodau.  Felly, ni allwn roi gwybodaeth am ethnigrwydd neu anabledd yr Aelodau.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae’r cod wedi’i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF